

## COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

### PWYLLGOR ARCHWILIO AC ATAL RISG A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD LLUN 26 GORFFENAF 2021 (10:30 – 12:15)

**Aelodau CFfDLC yn bresennol:** Ceri Stradling drwy MS Teams (Cadeirydd), Dave Powell (Aelod), Julie May (Aelod), Julie James drwy MS Teams (Aelod Annibynnol)

**Cynrychiolydd Archwilio Cymru:** Julie Rees drwy MS Teams

**Cynrychiolydd TIAA:** Helen Cargill drwy MS Teams

**Cynrychiolydd Cymwysterau Cymru:** Sean Gaffney drwy MS Teams

**Swyddogion CFfDLC:** Shereen Williams (Prif Weithredwr), David Carr (Rheolwr Cyllid), David Burley (Pennaeth Busnes)

Croesawodd y Cadeirydd Julie May, sef Aelod CFfDLC a benodwyd i'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn lle Theo Joloza, a oedd wedi terfynu ei benodiad yn gynnar gan iddo symud dramor â'i yrfa.

#### 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

#### 2. Datganiadau o fuddiant

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

#### 3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2021

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2021 yn amodol ar newid 'Deloitte' i 'TIAA' ar restr y rhai a oedd yn bresennol.

3.2 Nodwyd nad oedd gan CFfDLC Hyrwyddwr TGCh mwyach yn dilyn ymadawiad y Comisiynydd, Theo Joloza. **Cytunwyd** y dylid enwebu Hyrwyddwr TGCh newydd ar ôl penodi aelodau newydd yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

**Gweithredu:** Prif Weithredwr / Aelodau CFfDLC **Erbyn:** 31 Ionawr 2022

#### 4. Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol

4.1 Nododd y Pwyllgor fod mwyafrif yr eitemau a oedd yn codi o'r cyfarfod blaenorol wedi'u cwblhau erbyn hyn.

4.2 Roedd un eitem yn weddill o hyd, sef yr archwiliad manwl o Ddiogelwch TGCh. Roedd paratodau ar gyfer yr ymarfer yn mynd rhagddynt o hyd, ac roedd Cymwysterau Cymru a CFfDLC yn cynnal asesiad risg.

## 5. Adroddiad ar Ddiogelwch Data TGCh

- 5.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw ddigwyddiadau diogelwch data yn 2021-22 hyd yn hyn.
- 5.2 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad diogelwch TGCh a gyflwynwyd gan Sean Gaffney. Rhoddodd grynodedeb o'r bygythiadau seiber diweddaraf a nodwyd gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, ac esboniodd nad oedd unrhyw un o'r rhain yn peri bygythiad sylweddol i CFfDLC.
- 5.3 Crybwyllwyd bod archwiliad Diogelwch TGCh Cyber Essentials CFfDLC wedi'i adnewyddu'n ddiweddar.
- 5.4 Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid trefnu cwrs hyfforddiant diweddarau ar ddiogelwch TGCh i'r holl staff ac aelodau. **Cytunwyd** y byddai hyn yn cael ei drefnu ar ôl penodi aelodau newydd.  
**Gweithredu:** Pennaeth Busnes / Cymwysterau Cymru **Erbyn:** 31 Mawrth 2022
- 5.5 Tynnodd Sean Gaffney sylw'r Pwyllgor at gynnydd diweddar mewn bygythiadau o'r we a oedd yn cael eu rhwystro gan ddiogelwch TGCh, a sbardunwyd drwy fynd at gyfeiriad gwe aswpsdkus.com, a oedd yn cael ei gategoreiddio'n URL maleisus. **Cytunwyd** pe byddai hyn yn parhau dros yr ychydig fisoedd nesaf y byddai camau pellach yn cael eu cymryd i ddod o hyd i'r achos.
- 5.6 Crybwyllwyd bod y Gofrestr Risg TGCh yn cael ei hadolygu ym mhob cyfarfod rheoli erbyn hyn. **Cytunwyd** y byddai fersiwn ddiweddaraf y Gofrestr Risg TGCh yn cael ei hanfon at Sean Gaffney er mwyn iddo fwrw golwg drosti.  
**Gweithredu:** Pennaeth Busnes **Erbyn:** 15 Awst 2021

## 6. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg 2021-22

- 6.1 Crybwyllwyd bod Cynllun Gwaith newydd wedi'i ddrafftio ar gyfer 2021-22.
- 6.2 Nododd y Pwyllgor gynnwys Cynllun Gwaith 2021-22 a **chytuno** arno'n amodol ar y newidiadau canlynol:
- Y dylid diwygio'r disgrifiad o'r eitem yn ymwneud â'r cyfarfod blynyddol ag archwilio allanol i ddarllen 'cyfarfod caeedig', ac yna byddai cyfle i drafod effeithiolrwydd archwilio mewnol wedi hynny.
  - Y dylid symud amseriad yr ymarfer dilysu asedau sefydlog o fis Tachwedd i fis Chwefror.
- Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 29 Tachwedd 2021

## 7. Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg

- 7.1 Nododd y Pwyllgor gynnwys y Cylch Gorchwyl. **Cytunwyd** y byddai rhestr y cyfrifoldebau a'r gofynion gwybodaeth ar gyfer adrannau 7 ac 8 yn cael eu diweddarau i gynnal Sicrwydd Diogelwch Data TGCh a Rhyddid Gwybodaeth.  
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 29 Tachwedd 2021

## 8. Cyfrifon Blynyddol 2020-21 a'r Archwiliad o'r Adroddiad ar y Datganiadau Ariannol

- 8.1 Nodwyd bod y datganiadau ariannol a'r cyfrifon drafft wedi'u hystyried gan CFfDLC yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2021.
- 8.2 Crybwyllodd Julie Rees y derbyniwyd y cyfrifon yn brydlon ac, o ganlyniad, bod yr amserlen wreiddiol ar gyfer cwblhau'r archwiliad wedi'i bodloni. Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol oedd cyhoeddi adroddiad archwilio diamod, cyn belled â na fydd unrhyw ddigwyddiadau'n effeithio ar y cyfrifon hyd at yr adeg y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn eu hardystio, sef 28 Gorffennaf 2021.
- 8.3 Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn y cyfrifon na materion sylweddol yn deillio o'r archwiliad. Roedd 7 o gamddatganiadau a gywirwyd yn y cyfrifon, yr oedd rhai ohonynt yn fân newidiadau i'r symiau a ddatgelwyd ar gyfer tâl aelodau, addasiad i gyfrif am waredu ased sefydlog, addasiad i groniad gan mai dim ond rhan o'r taliad a oedd yn disgyn yn ystod y flwyddyn, a chynnwys rhagdaliad a oedd wedi'i hepgor mewn camgymeriad.
- 8.4 Roedd dau argymhelliad archwilio a godwyd yn yr adroddiad, sef:
- Bod angen mireinio'r polisi cyfrifyddu ar gyfer asedau anniriaethol i gynnwys lefel de-minimis lle y caiff pob ased uwchlaw'r lefel honno ei asesu yn erbyn IAS 38. Mae angen asesu pob gwariant ar feddalwedd yn erbyn y meini prawf yn IAS 28 ar gyfer cyfalafu, fel hyd y drwydded ac ati.
  - Y cynhelir adolygiad o'r gofrestr asedau sefydlog i sicrhau bod oes yr asedau'n briodol o hyd a bod y gofrestr wedi'i diweddarau i adlewyrchu asedau a waredwyd.
- 8.5 Derbyniwyd y ddau argymhelliad gan reolwyr. O ran yr argymhelliad yn ymwneud ag ymdrin â meddalwedd wrth gyfrifyddu, nodwyd bod mwyafrif y costau meddalwedd cyfredol yn gymharol isel o ran taliadau prydlesu blynyddol, ac felly bod y polisi presennol o'u trin fel gwariant refeniw yn briodol. **Cytunwyd** y byddai lefel gwariant cyfredol CFfDLC ar feddalwedd yn parhau i gael ei thrin fel gwariant refeniw, ac y byddai'r polisi cyfrifyddu ar gyfer asedau anniriaethol yn cael ei ddiwygio i gynnal lefel de-minimis lle y caiff pob ased uwchlaw'r lefel honno ei asesu yn erbyn IAS 38.
- 8.6 Cytunwyd y byddai'r dyddiadau cau ar gyfer rhoi'r argymhellion ar waith yn cael eu dwyn ymlaen i ddyddiad mwy addas na 31 Mawrth 2022.
- 8.7 Diolchodd y Cadeirydd i Julie Rees am ei hadroddiad. **Cymeradwyodd** y Pwyllgor y cyfrifon archwiliedig a'u llofnodi, a chytuno ar gamau i lofnodi'r llythyr o gynrychiolaeth.

## 9. Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol 2020-21

- 9.1 Dywedodd Helen Cargill fod y Strategaeth Archwilio Mewnol yn cwmpasu'r 3 blynedd nesaf o 2021-22 hyd 2024-25 ac yn cynnwys materion fel canlyniad

archwiliadau blaenorol, twyll a seiberddiogelwch. Roedd hefyd yn cynnwys yr Adroddiad Cryno ar Sicrwydd Rheolaethau Mewnol, a oedd yn rhoi crynodeb o rybuddion twyll diweddar, er nad oedd angen i CFfDLC ymateb i'r rhain, dim ond eu nodi.

- 9.2 Roedd Atodiad D yn amlinellu'r cynllun blynyddol ar gyfer 2021-22, a oedd yn cynnwys Rheolaethau Strategol Llywodraethu, Rheoli Risg, y Gyflogres, Rheolaethau Cyffredinol TGCh ac Arolygon Etholiadol a Seneddol.
- 9.3 Roedd y Pwyllgor o'r farn y dyrannwyd gormod o amser yn y cynllun i Arolygon Etholiadol a Seneddol, gan fod yr Arolygon Etholiadol wedi dod i ben yn ddiweddar a'r Arolwg Seneddol ond newydd ddechrau. Nodwyd hefyd y dyrannwyd 3 diwrnod i archwilio'r gyflogres, ac ystyriwyd bod hyn yn ormodol.
- 9.2 **Cytunwyd** y dylid dileu'r archwiliadau o'r Arolygon Etholiadol a Seneddol o'r cynllun ac y dylid dyrannu'r diwrnodau archwilio i Reolaethau Ariannol Allweddol yn lle hynny. **Cytunwyd** hefyd y dylid dyrannu 1 diwrnod yn llai i archwilio'r Gyflogres a dyrannu'r amser hwnnw i Reolaethau Ariannol Allweddol.  
**Gweithredu:** TIAA Ltd. **Erbyn:** 1 Medi 2021
- 9.4 Cytunwyd i newid y rhesymwaith risg a chwmpas Rheolaethau Strategol Llywodraethu i gadarnhau ei bod yn cynnwys y risg o wrthdaro buddiannau ond nid rheoli risg, a oedd yn destun adolygiad ar wahân.  
**Gweithredu:** TIAA Ltd. **Erbyn:** 1 Medi 2021
- 9.5 **Cymeradwywyd** y Strategaeth Archwilio a Chynllun Archwilio Mewnol Blynyddol 2021-22 yn amodol ar y newidiadau cytûn.

## 10. Asesiad Archwilio Mewnol Blynyddol CFfDLC 2020-21

- 10.1 Crybwyllwyd bod Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn a'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg wedi cwblhau eu hasesiad blynyddol o archwilio mewnol ar gyfer 2020-21. Nododd y Pwyllgor gasgliadau'r asesiad, sef bod annibyniaeth a pherfformiad Archwilio Mewnol o safon uchel ac wedi bodloni'n safonau yn ymwneud â sicrhau ansawdd.
- 10.1 Nodwyd bod ymatebion yr asesiad yn cynnwys sawl sylw yn ymwneud â pha mor gyflym roedd TIAA wedi deall busnes a swyddogaethau CFfDLC, a pha mor dda y cynhaliwyd yr archwiliad yn ystod blwyddyn gyntaf ei gontract.

## 11. Argymhellion Archwilio – Adroddiad ar Gynnydd

- 11.1 Ystyriodd y Pwyllgor y cynnydd ar yr argymhellion archwilio mewnol sy'n weddill, gan gynnwys y rhai a oedd wedi'u rhoi ar waith ers yr adroddiad blaenorol.
- 11.2 Nodwyd bod yr argymhelliad archwilio mewnol yn ymwneud ag adolygu a diweddarau'r Polisi Hyfforddiant a Datblygiad wedi'i roi ar waith drwy raglen adolygu dreigl, ac felly y dylid diwygio'r dyddiad cau ar gyfer gweithredu'r argymhelliad hwn i adlewyrchu bod hyn yn digwydd yn barhaus.

- 11.3 Roedd y tri argymhelliad archwilio mewnol a oedd yn weddill yn ymwneud â'r rhaglen arolygon etholiadol, a oedd bron â'i chwblhau, ac felly ni ellid eu rhoi ar waith tan y rhaglen arolygon nesaf yn 2022/23.

## **12. Rhestr Colledion 2020-21**

- 12.1 Nododd y Pwyllgor nad oedd CFfDLC wedi cofnodi unrhyw golledion yn ystod 2020-21, ac y cyflwynwyd ffurflen â dim colledion i Lywodraeth Cymru.

## **13. Cynllun Parhad Busnes 2021-22**

- 13.1 Nododd y Comisiwn na fu unrhyw brawf o'r Cynllun Parhad Busnes yn ystod 2021-22 gan fod y Cynllun ar waith o hyd wrth ymateb i'r cyfyngiadau COVID-19 parhaus. Rhoddodd yr adroddiad grynodedb o'r meysydd lle y gwnaed newidiadau a gwelliannau i brosesau CFfDLC i oresgyn yr anawsterau a brofwyd ar ddechrau'r pandemig COVID-19 yn 2020-21.
- 13.5 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ar brawf y Cynllun Parhad Busnes a'r casgliad bod y Cynllun yn ddigon cadarn.

## **14. Adroddiad Rheoli Risg**

- 14.1 Ystyriwyd y cofrestrau a'r polisi risg cyfredol. Rhoddwyd manylion am y newidiadau a wnaed i'r cofrestrau risg Corfforaethol a Gweithredol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.
- 14.2 Nodwyd er bod Risg CR2 wedi'i dileu o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, roedd ar y Radar Risg o hyd. Cytunwyd y byddai Risg CR2 yn cael ei dileu o'r Radar Risg.  
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Gorffennaf 2021

## **15. Cofrestr Risg TGCh**

- 15.1 Ystyriwyd y gofrestr risg TGCh gyfredol. Nodwyd y byddai'r Gofrestr Risg TGCh yn debygol iawn o newid o ganlyniad i'r archwiliad manwl o Ddiogelwch TGCh.

## **16. Adroddiad Monitro'r Gyllideb**

- 16.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion yr adroddiad ar y gyllideb a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ar 29 Mehefin 2021.
- 16.1 Nodwyd bod cyllideb ar gyfer costau lles staff wedi'i sefydlu, a chrybwyllwyd bod gwasanaethau'r darparwr lles staff a gontractiwyd yn ddiweddar gan CFfDLC, sef Care First, yn ymestyn i gynnwys Aelodau CFfDLC yn ogystal â staff.

## **17. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau**

17.1 Nododd y Pwyllgor na wnaed unrhyw ddatganiadau o roddion a lletygarwch ers y cyfarfod diwethaf.

## **18. Cwynion**

18.1 Nododd y Pwyllgor na wnaed unrhyw gŵynion i CFfDLC ers y cyfarfod diwethaf.

## **19. Adroddiad a Pholisïau Chwythu'r Chwiban a Thwyll**

19.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw achosion o chwythu'r chwiban na thwyll ers y cyfarfod diwethaf.

19.1 Crybwyllodd y Pwyllgor fod y Polisiâu Twyll a Chwythu'r Chwiban wedi'u hadolygu'n ddiweddar.

## **20. Adroddiad Rhyddid Gwybodaeth**

20.1 Nododd y Pwyllgor y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gafwyd rhwng mis Ebrill 2021 a mis Gorffennaf 2021. Ystyriwyd y byddai nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn debygol o gynyddu yn dilyn penderfyniadau'r Gweinidogion ar gyfer Argymhellion Terfynol yr Arolygon Etholiadol.

## **21. Unrhyw fater arall**

21.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

## **22. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf**

22.1 Mae dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf fel a ganlyn:  
25 Tachwedd 2021